**PWYLLGOR RHANBARTH Y CANOLBARTH**

**Blaen-raglen Waith**

**Pwrpas**

Hysbysu Aelodau am gyfarfodydd yn y dyfodol a gwahodd Aelodau i ystyried materion y gellid ymdrin â hwy yn y cyfarfodydd hynny.

**Cyfarfodydd yn y Dyfodol**

| **Dyddiad** | **Lle** | **Pwnc** |
|---|---|---|
| 4 Chwefror 1999<br><br>(Sioe ar daith) | Coleg Powys,<br><br>Y Drenewydd | Datblygu Cynaliadwy |
| 10 Mawrth 1999<br><br>(ffurfiol) | Dolgellau | 1. Heddlu yn y Gymuned Wledig<br><br>2. Strategaeth Trafnidiaeth Integredig |
| 7 Ebrill 1999<br><br>dewis i gael cyfarfod anffurfiol | I'w benderfynu | |

***Datblygu Cynaliadwy – Sioe ar Daith – 4 Chwefror***

Fel rhan o ymgynghoriad statudol y Cynulliad Cenedlaethol ar ei gynigion ar gyfer Datblygu Cynaliadwy, cytunwyd â Chadeiryddion y Pwyllgorau Rhanbarth y byddai pob Pwyllgor yn cynnal Sioe ar Daith. Bydd y Sioe ar Daith yn debyg i'r rheiny a gynhaliwyd ar gyfer Amcan 1. Bydd rhestr o gyrff a mudiadau yn cael eu gwahodd i roi cyflwyniadau byr i'r Pwyllgor, ac ar ôl hynny ceir cyfle i'r cyhoedd fynegi barn.

Caiff adroddiad ar y Sioe ar Daith ei anfon at Christine Gwyther, yr Ysgrifennydd Cynulliad sy'n arwain ar y mater hwn.

Bydd yn cyfarfod yn cael ei gynnal yn y Ganolfan Gynadledda, Coleg Powys, y Drenewydd. [ ]

***Y Cyfarfod Ffurfiol – 10 Mawrth***

Cynhelir y cyfarfod yng Ngogledd Orllewin y rhanbarth. Nid yw'r lleoliad wedi'i gadarnhau eto, ond yr ydym yn chwilio am leoedd addas yn ardaloedd Dolgellau neu Harlech.

Eitem 1 ar yr Agenda – 'Heddlu yn y Gymuned Wledig'

Gofynnir i Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru (ar gyfer ardal Meirionnydd) roi cyflwyniadau.

Eitem 2 ar yr Agenda – Strategaeth Trafnidiaeth Integredig

Mae'r Pwyllgor Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn cynnal adolygiad polisi o'r mater yn ystod tymor y gwanwyn. Mae'n bwriadu ysgrifennu at bob cadeirydd rhanbarthol i ofyn am eu barn ar y mater. Mae'r eitem wedi'i chynnwys er mwyn rhoi cyfle i'r Pwyllgor drafod a chlywed safbwyntiau ar y mater, ac fel bod modd ymateb yn ddoeth i'r Pwyllgor Pwnc.

Awgrymir y dylid gwahodd y rhai sy'n darparu trafnidiaeth gyhoeddus yn ardal y Canolbarth, ynghyd â'r Awdurdodau Lleol a'r defnyddwyr, i gyflwyno'u safbwyntiau. Bydd y safbwyntiau hyn yn cael eu casglu a'u cyflwyno i'r Pwyllgor ar ffurf papur. Gall y Pwyllgor hefyd wahodd cynrychiolwyr i roi cyflwyniad byr ar ddechrau'r eitem.

***Y Cyfarfod Anffurfiol – 7 Ebrill***

Mae lle wedi'i ddarparu, yn amserlen fusnes y Cynulliad Cenedlaethol, i Bwyllgor Rhanbarth y Canolbarth gynnal cyfarfod anffurfiol ar 7 Ebrill, os yw'n dymuno gwneud hynny. Mae angen i aelodau benderfynu a ydynt am fanteisio ar y dewis ai peidio, ac os ydynt, pa faterion y maent am eu trafod a beth fydd trefn y cyfarfod. Mae angen gwneud penderfyniadau yn ystod y cyfnod cynnar hwn, er mwyn gwneud trefniadau. Ni fyddai'n bosibl trefnu cyfarfod pe bai'r penderfyniad yn cael ei ohirio tan y Cyfarfod Ffurfiol ar 10 Mawrth.

**Opsiynau**

Mae Rheol Sefydlog 10 yn nodi mai rôl y Pwyllgorau Rhanbarth yw 'cynghori'r Cynulliad yngln â materion sy'n effeithio ar eu rhanbarthau, effaith polisïau'r Cynulliad yn y rhanbarthau hynny a gwaith cyrff cyhoeddus yno.'

A. Cyfarfod â chynrychiolwyr yr Awdurdodau Lleol

Gallai hyn fod yn gyfle i'r Pwyllgor gyfarfod â chynrychiolwyr o'r Awdurdodau Lleol i weld beth yw eu cynlluniau a'u blaenoriaethau ar gyfer y rhanbarth. Byddai hyn yn cynnwys cyflwyniadau gan dri Awdurdod Lleol (15 munud yr un) a chyfle i Aelodau ofyn cwestiynau iddynt. Gellid cyfuno'r rhan ffurfiol, gyhoeddus hon o'r cyfarfod â chyfarfod anffurfiol, preifat ag uwch-swyddogion a wahoddwyd o Awdurdodau Lleol.

B. Ymweld â lle/lleoedd o ddiddordeb

Gallai'r Pwyllgor fabwysiadu thema ar gyfer ei ymweliad ee ysgolion a cholegau; canolfannau iechyd; mentrau busnesau bach, a chysylltu hyn ag un o bolisïau'r Cynulliad Cenedlaethol. Gallai ymweliad ag ysgolion a cholegau i weld sut maent yn cwrdd â'r her o addysgu sgiliau gwybodaeth a chyfathrebu fod yn un enghraifft. Gallai hyn gynnwys ymweliadau ag amrywiaeth o ysgolion a cholegau mewn ardal arbennig.

C. Cyfarfod â grp arbennig o bobl

Gellid trefnu cyfarfod er mwyn i'r Pwyllgor gyfarfod â grp penodol o bobl i wrando ar eu pryderon mewn amgylchedd anffurfiol ee gwahodd disgyblion y chweched dosbarth i gyfarfod ag Aelodau mewn sesiwn holi ac ateb (cwestiynau i'w cyflwyno cyn y cyfarfod). Gellid defnyddio'r drefn hon gyda grwpiau eraill sydd â buddiannau tebyg.

**Tymor yr haf**

Nid oes cytundeb eto yngln â'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd tymor yr haf.

Gellid ystyried agendâu ffurfiol a chyfarfodydd anffurfiol yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 10 Mawrth.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

Tachwedd 1999